# Ordinhad 15

# Y Cyngor: Pwyllgorau

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 25 Tachwedd 2024 |
| **Perchennog y Polisi:** | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| **Swyddog Polisi:** | Swyddog Contractau |
| **Statws y Polisi:** | Diwygiwyd |
| **Fersiwn:** | 2.1 |
| **Dyddiad adolygu:** | Hydref 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Hydref 2026 |

# Ordinhad 15
# Y Cyngor: Pwyllgorau

1. Mae gan y Cyngor y pŵer i ddarparu ar gyfer sefydlu a diddymu pwyllgorau i gynnwys cynrychiolwyr y Cyngor ac unrhyw rai eraill bydd y Cyngor yn penderfynu arnynt, ac i bennu dull penodi a swyddogaethau'r pwyllgorau hynny.

2. Bydd Pwyllgorau'r Cyngor fel isod. Penodir yr aelodau gan y y Cyngor, fel rheol yn ôl argymhelliad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu. Bydd yr aelodau'n gwasanaethu fel rheol am bedair blynedd a gellir eu hailbenodi ar yr amod eu bod yn parhau i fod yn aelodau o'r Cyngor, oni bai bod hyn wedi'i eithrio yn benodol yng nghyfansoddiad y Pwyllgor. Bydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn adolygu penodi aelodau'n rheolaidd.

3. Bydd gan bob Pwyllgor Gadeirydd a benodir gan y Cyngor yn ôl argymhelliad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu. Bydd y Cadeirydd yn gymwys i barhau fel Cadeirydd, ar yr amod eu bod yn parhau i fod yn aelodau o'r Cyngor a chydag argymhelliad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu. Ysgrifennydd y Brifysgol fydd yn penodi Ysgrifennydd pob Pwyllgor.

4. Rhaid cyflwyno cofnodion pob cyfarfod gerbron y Cyngor.

5. Oni fydd y Cyngor yn gorchymyn yn wahanol, tri fydd cworwm pwyllgor o bum aelod neu fwy, a dau fydd cworwm pwyllgor o lai na phum aelod. Bydd aelod sy'n cymryd rhan mewn cyfarfod o bell drwy gyfrwng cynhadledd fideo neu sain neu ddulliau eraill sy'n galluogi'r aelod hwnnw i gyfathrebu â phob un o'r aelodau eraill ar yr un pryd, yn cael ei gyfrif fel un sy'n bresennol a bydd yn cael ei gynnwys yn y cworwm.

6. Bydd gan pob pwyllgor y grym i gyfethol hyd at dri unigolyn nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor ac nad oes rhaid iddynt fod yn aelodau o'r Brifysgol i wasanaethu ar y pwyllgor am gyfnod o bedair blynedd. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, caniateir cyfethol am un cyfnod pellach o bedair blynedd.

7. Bydd aelodaeth a Chylch Gorchwyl y Pwyllgorau fel y'u rhagnodir gan y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu, a fydd yn gyfrifol am faterion beunyddiol y Pwyllgorau.

8. Bydd pwyllgorau sefydlog y Cyngor fel a ganlyn:

   (a) Pwyllgor Cyllid
   (b) Pwyllgor Archwilio a Risg
   (c) Pwyllgor yr Iaith Gymraeg
   (ch) Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu
   (d) Pwyllgor Pobl a Diwylliant
   (dd) Pwyllgor Taliadau

Yn ogystal, bydd y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau yn adrodd i'r Cyngor drwy'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Bydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn penodi aelod annibynnol o'r Cyngor i wasanaethu ar y Pwyllgor hwn.

9. Gweithdrefn Uwchgyfeirio i'r Cyngor

Rhaid i bob pwyllgor sefydlog o'r Cyngor sicrhau bod y cofnodion ffurfiol a gyflwynir i'r Cyngor yn cynnwys adran sy'n tynnu sylw at y materion a drafodwyd yn y cyfarfod y mae'r Pwyllgor yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu dwyn i sylw'r Cyngor.